
# Hanni a'r Ffenestr Hud



Gan Amy Lockwood
Lluniau gan Saba Lasheiei

© Hawlfraint Childnet 2022
Cedwir pob hawl.
Cyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 2022 gan Childnet International.
ISBN 978-0-9573506-8-7

Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adalw, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ffordd, yn electronig, mecanyddol, llungopi, recordiad neu fel arall, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan berchennog yr hawlfraint Childnet.

Testun gan Amy Lockwood, Childnet, 2022.
Gwaith dylunio a lluniau gan Saba Lasheiei, 2022.
Mae hawliau moesol yr awdur a'r darlunydd wedi cael eu harddel.

# Hanni a’r Ffenestr Hud

Gan Amy Lockwood
Lluniau gan Saba Lasheiei

Dyma Hanni, ei thref a'i hysgol,
Dim llawer i'w weld. Dim byd rhyfeddol.
Ond, gartref, nid felly mae pethau.
Mae cartref Hanni yn lle llawn gwyrthiau.



Edrychwch heibio'r drws, y ryg a'r gadair,
Dyna ni! Ar y wal! Y ffenestr ddisglair!



Wrth agor y llenni, pwy
a ŵyr i ble ewch chi,

Drwy'r ffenestr hud, ble byddwch chi,
beth welwch chi...



O dan y dŵr, lle mae’r pysgod yn nofio.

Neu geir anhygoel o gyflym yn rasio!



Yn y gofod,




neu ar gwch
ar y môr,



Dweud helo
wrth deulu sy'n
byw dramor.



Mae’r ffenestr yn helpu Hanni i ddysgu ac archwilio.
Neu chwerthin nes bydd ei bochau hi’n brifo.





Codi ei chalon pan fydd hi’n teimlo’n isel,
Mae’n dangos byd y tu hwnt i’w thref fach dawel.

Un noson, mae Hanni wedi syrffedu,
Gyda Tonton yn cysgu, does ganddi ddim cwmni.



“Beth wna i?” meddylia, “Beth sy'n mynd a'm bryd?”
“Beth am gymryd cip drwy’r ffenestr hud?”

O na, beth yw hyn? Mae'n tynnu'n ôl yn glou.
Mae'n teimlo'n sâl – mae ei stumog yn troi.
Mae ei llygaid yn cosi, fel y tro diwethaf iddi grio.
Mae’n ysu am gael rhedeg i ffwrdd neu guddio.
Fyddai Hanni ddim yn derbyn unrhyw bris yn y byd,
Am edrych eto drwy’r ffenestr hud!

Daw Mam adref ac mae'n amser noswylio.
Mae’n gwenu ar Hanni ac yn ei hanwylo.
“Gawsoch chi amser da heno, chi’ch dau?”
Ond mae Hanni’n fud ac yn codi ei ’sgwyddau.



Drannoeth, yn yr ysgol, cyn amser cinio,
Daw Mr Green ati, “Hanni, helo!”
“Rwyt ti’n dawel heddiw. Ydy popeth yn iawn?”
Ond all Hanni ddim esbonio'n llawn.



Ar yr iard, mae ei ffrindiau am chwarae gêm,



Ond mae Hanni'n methu dod o hyd i'w gwên.



Ar ôl ysgol, mae Hanni’n mynd am dro,
Gyda Tonton, sydd am iddi egluro.
Mae’r geiriau’n mynd yn sownd ac mae Hanni'n rhewi.
“Gad lonydd i mi!” mae'n teimlo fel gweiddi.



Mae’n cadw’n dawel am yr hyn a welodd,
Nes i hynny fynd yn rhy anodd.




Mae’n gyfrinach drom – mae hi’n teimlo mor unig,
Wrth i’r dyddiau fynd heibio, mae'n fwy ynysig.

Yn llawn pryder un prynhawn dydd Llun,
Mae Hanni'n cael cinio ar ei phen ei hun.
Pan ddaw Mrs Rodwell, sy'n rhoi help llaw,
I eistedd ati a gofyn yn ddistaw,

"Eisiau siarad am y peth?"

Mae Mrs Rodwell yn aros yno gyda Hanni,
Yn rhoi amser iddi benderfynu beth i'w rannu.





"Rwy'n falch dy fod wedi dweud hyn wrtha i,
Gwn nad yw'n hawdd, ond gallaf dy helpu di.
Beth am i ni fynd at Mr Green am sgwrs…
Am y ffordd rwyt ti'n teimlo, a beth welaist, wrth gwrs."

“Mae’n ddrwg gen i fod hyn wedi digwydd i ti,
Rwyf yma bob amser os hoffet siarad â fi.
Gyda’n gilydd, gallwn roi gwybod i Mam,
Am y ffordd rwyt ti'n teimlo a'r rheswm pam.”





Wrth i Mam gyrraedd ar ddiwedd y dydd,
Mae Hanni’n poeni sut ymateb fydd.
Ond beth sy'n bwysig i Mam yw bod Hanni'n iawn.
Gwneud iddi deimlo'n ddiogel – dyna ei dawn.

Peth bendigedig yw'r ffenestr hud,
Gallwn agor y llenni a gweld y byd…



Mae llawer i'w wneud, ei ddysgu a'i wylio.
Ond nid yw popeth yn iawn i ti yno.









Rydyn ni oedolion yma doed a ddelo,
I’th gysuro a’th helpu os byddi’n gofidio.
Gyda’n gilydd, fe gawn ni hwyl a sbri.
A phan fyddi di'n hŷn, cei wneud hebdda i.
Ond ble bynnag yr ei di a beth bynnag a we
Cofia fy mod i wastad yma i’th helpu.



# Gadewch i ni siarad am stori Hanni:



Mae ffenestr hud Hanni yn debyg iawn i'r dechnoleg sydd gennym gartref. Pa bethau bendigedig allwch chi eu gweld neu eu gwneud gan ddefnyddio technoleg?



Mae Hanni'n gofidio oherwydd rhywbeth mae hi'n ei weld drwy'r ffenestr hud. Sut rydyn ni'n gwybod hynny?

Dydy Hanni ddim am siarad â neb am yr hyn mae hi wedi'i weld. Beth yw'r rhesymau posibl dros hynny?



Beth mae Mrs Rodwell yn ei wneud i helpu Hanni?

Sut mae Mam yn gwneud i Hanni deimlo'n well?

Wrth bwy allech chi ddweud pe baech chi'n teimlo'n ofidus neu'n bryderus?

Childnet

Nod Childnet yw gweithio mewn partneriaeth ag eraill o amgylch y byd i helpu i wneud y rhyngrwyd yn lle gwych a diogel i blant.

Mae Childnet yn elusen yn y DU sy'n darparu gweithgareddau cyfranogiad ieuenctid, addysg a pholisïau. Mae Childnet yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc 3-18 oed bob wythnos, yn ogystal â rhieni, gofalwyr, athrawon a gweithwyr proffesiynol, i glywed am eu profiadau go iawn ar-lein a'r pethau cadarnhaol maen nhw'n eu gwneud, yn ogystal â rhannu cyngor am ddiogelwch.

Mae Childnet wedi parhau i fod ar flaen y gad gyda'r tueddiadau diweddaraf drwy weithio'n uniongyrchol gyda miloedd o blant a phobl ifanc bob blwyddyn, ac mae gan yr elusen adnoddau arloesol i blant a phobl ifanc 3-18 oed, rhieni, gofalwyr ac athrawon, a rhaglenni diogelwch ar-lein sy'n grymuso disgyblion.

Mae Childnet yn un o'r tair elusen sy'n rhan o'r UK Safer Internet Centre, sy'n cydlynu Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn fwy Diogel yn y DU, sy'n cyrraedd miliynau o blant bob blwyddyn.


I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [www.childnet.com](http://www.childnet.com).

UK Safer Internet Centre    NOMINET

Mae Childnet International yn bartner yn UK Safer Internet Centre gyda'r Internet Watch Foundation a South West Grid for Learning. Caiff y prosiect hwn ei ariannu ar y cyd gan Nominet. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [www.saferinternet.org.uk](http://www.saferinternet.org.uk).

# Stori am ddiogelwch ar-lein heb unrhyw dechnoleg!

Mae gan gartref Hanni ffenestr hud arbennig iawn. Ond, ar ôl iddi weld rhywbeth sy’n peri gofid iddi, mae’n ei chael hi’n anodd esbonio beth sydd wedi digwydd.



A all Hanni ddod o hyd i'r geiriau i gael yr help sydd ei angen arni?



Childnet